

<b>Policy:</b>	Policy and Procedure for Promoting School Attendance
<b>Responsibility:</b>	Full GB
<b>Headteacher's recommendation to the Governing Body:</b>	<i>This policy has been provided by IOACC. Headteacher recommends adopting this policy.</i>
<b>Adopted:</b>	02.03.17
<b>Review:</b>	Every three years, as dated below:



**Adran Dysgu Gydol Oes, Cyngor Ynys Môn**

**POLISI AC ARFER  
AR GYFER HYBU  
PRESENOLDEB YSGOL**

## CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad
2. Cyrifoldebau Ysgolion
3. Cyrifoldebau Llywodraethwyr
4. Cyrifoldebau Rhieni
5. Cyrifoldebau'r Cyngor (AALI)
6. Cefnogaeth y Cyngor - rhan y Swyddogion Lles Addysg
7. Cefnogaeth y Cyngor – gwasanaethau eraill
8. Polisi'r Cyngor ar Erlyn Rhieni
9. Rhwydweithiau a phartneriaethau amlasiantaethol
10. Cefnogi presenoldeb disgyblion bregus neu ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol

- Atodiad 1 Dogfennau a Chyfeiriadau Allweddol
- Atodiad 2 Graddfeydd Presenoldeb/Absenoldeb Anawdurdodedig yn Ynys Môn ac yn Genedlaethol
- Atodiad 3 Targedau Presenoldeb Ysgolion Ynys Môn
- Atodiad 4 Polisi ar gyfer Hybu Presenoldeb Plant y Gofelir Amdanynt
- Atodiad 5 Rhestr Dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Atodiad 6 Codau Presenoldeb SIMS

## **Diffiniadau**

### **Oed ysgol gorfodol**

O dan Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996, dylai plant a phobl ifanc fynychu'r ysgol o ddechrau'r tymor cyntaf sy'n dechrau ar ôl eu pumed pen-blwydd. Dyddiadau diwedd y tymor yw 31 Mawrth, 31 Awst a 31 Rhagfyr.

Mae unigolyn ifanc yn peidio â bod o oed ysgol gorfodol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin y flwyddyn ysgol lle maent yn cael eu pen-blwydd yn 16 .

### **Rhiant**

Mae'r diffiniad o 'riant' wedi ei osod allan yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 ac yn cynnwys:

- pob rhiant naturiol, p'run a ydynt wedi priodi ai peidio;
- mae gan unrhyw unigolyn, er nad yw'n rhiant naturiol, gyfrifoldeb rhiant (fel y diffiniwyd yn Neddf Plant 1989) ar gyfer plentyn neu unigolyn ifanc; ac
- unrhyw unigolyn sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, â gofal plentyn neu unigolyn ifanc.

Mae bod â gofal plentyn neu unigolyn ifanc yn golygu yr ystyrir rhywun y mae'r plentyn yn byw gydag ef ac sy'n gofalu am y plentyn, waeth beth fo'u perthynas gyda'r plentyn, yn rhiant mewn deddf addysg.

## 1.0 CYFLWYNIAD A DATGANIAD O FWRIAD

- 1.1 Mae'r Cyngor yn adnabod bod presenoldeb ysgol prydlon a rheolaidd yn rhagamod hanfodol cynhwysiad cymdeithasol ac yn rhaganghenraid i ddysgu effeithiol. Mae'n nodi i nifer fach ond sylweddol o blant bod presenoldeb ysgol gwael yn achos uniongyrchol eu tangyflawniad a'u heithrio cymdeithasol. Mae hefyd yn bryderus bod plant sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol ac yn methu â mynychu'r ysgol honno yn rheolaidd yn eu gosod eu hunain mewn mwy o berygl o naill ai droseddu neu o ddod yn ddioddefwyr troseddu gan eraill. Mae'r Cyngor yn credu y dylai plant fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon oherwydd ysgol yw lle y gallant ddysgu ac ysgol yw lle maent yn ddiogel. (Mae'r Cyngor yn adnabod y gall rhai rhieni\* ddewis addysgu eu plant gartref yn hytrach na'u hanfon i ysgol.) (\*lle cyfeirir rhieni yn y ddogfen hon dylid cymryd hynny i gynnwys gofalwyr/gwarchodwyr.)
- 1.2 Mae'r Cyngor felly'n ymroddedig i wella lefelau presenoldeb a phrydlondeb ysgol. Mae'n amcanu at wneud hynny drwy:
- hybu gwerth a phwysigrwydd presenoldeb ysgol rheolaidd;
  - lleihau pob ffurf ar absenoldeb na ellir ei gyfiawnhau, yn arbennig lefelau absenoldeb parhaus. (Dosberthir plentyn fel un sy'n absennol yn barhaus os oes ganddo ef/hi raddfa absenoldeb o 20% neu fwy).
- 1.3 Mae'r Cyngor yn credu y bydd llwyddiant mewn cyflawni'r targedau hyn yn cael ei gyflawni orau os bydd egwyddorion partneriaeth ymarferol ac ystyrlon (gydag ysgolion, rhieni, disgyblion ac asiantaethau a gwasanaethau eraill) yn llywio holl weithgareddau'r Cyngor.
- 1.4 Er mwyn gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb ysgol bydd y Cyngor yn cyflogi pedair strategaeth allweddol:
- darparu cefnogaeth a her i bob ysgol, canolbwyntio adnoddau ar yr ysgolion hynny gyda'r anghenion y gellir eu hadnabod yn fwyaf clir;
  - darparu cefnogaeth gyson a theg i rieni, gan sicrhau, drwy gydbwysedd priodol o gymorth a thaerineb bod pob rhiant yn gallu cyfarfod â'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â phresenoldeb ysgol;
  - datblygu arferion gweithio amlasiantaethol effeithiol er mwyn hwyluso ymyriad cynnar a chyflwyno gwasanaeth diasiad;

- ch) datblygu ystod o ddangosyddion perfformiad perthnasol a gosod targedau realistig sydd eto'n heriol yn dilyn hynny.
- 1.5 Wrth ddatblygu ei bolisi a'i ymarfer ar gyfer hybu presenoldeb ysgol bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod yr angen i adnabod y cyd-destun cenedlaethol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael ei gydbwyso gan yr angen i ymateb i'r cyd-destun lleol ac i flaenoriaethau arbennig.
- 1.6 Swyddog Addysg Ysgolion Uwchradd fydd swyddog y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am arwain ar ddatblygu polisi ac ymarfer presenoldeb ysgol.



## 2.0 CYFRIFOLDEBAU YSGOLION

- 2.1 Mae ysgolion yn gyfrifol am gefnogi presenoldeb eu disgyblion ac am ymateb i anawsterau a materion a allai arwain at ddiffyg presenoldeb.
- 2.2 Gall ysgolion sy'n mabwysiadu dull cadarnhaol a rhagweithiol tuag at faterion presenoldeb ac annog rhieni i gymryd rhan ymarferol mewn addysgu eu plant, chwarae prif ran mewn gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb ac mewn lleihau absenoldeb.
- 2.3 Mae'n ofyniad cyfreithiol y bydd ysgolion yn:
- a) agored am 380 o sesiynau bob blwyddyn ysgol;
  - b) cadw cofrestrau presenoldeb (naill ai â llaw neu â chyfrifiaduron) yn unol â rheoliadau perthnasol;
  - c) cofnodi a monitro'n gywir pob absenoldeb a hwyrni, yn unol â chodau presenoldeb SIMS (gweler Atodiad 6);
  - ch) gwahaniaethu'n glir rhwng absenoldeb sy'n awdurdodedig ac absenoldeb anawdurdodedig yn ôl y meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (dylai ysgolion atgoffa rhieni mai penderfyniad y pennaeth yw p'run ai yr awdurdodir absenoldeb ai peidio);
  - d) gosod targedau blynyddol i leihau absenoldeb a chyflwyno'r targedau hyn i'r Awdurdod Lleol ac yn unol â'r rheoliadau perthnasol.
- 2.4 Anogir ysgolion yn gryf i ddatblygu polisi ysgol-gyfan ar bresenoldeb mewn trafodaeth gyda'r staff, y llywodraethwyr, rhieni a disgyblion, gan gymryd i ystyriaeth arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a'r arfer dda a adnabuir gan y Cyngor. Dylai'r polisi hwn:
- a) roi blaenoriaeth a gwerth uchel i bresenoldeb a phrydlondeb a sicrhau bod strategaethau penodol yn eu lle er mwyn cyflawni hyn;
  - b) sicrhau cydymffurfio â phob gofyniad statudol perthnasol (yn arbennig gyda golwg ar gadw cofrestrau presenoldeb a gosod targedau);
  - c) sicrhau os yw'r ysgol wedi bod yn chwarter isaf yr CAD am y ddwy flynedd ddiwethaf y cynhyrchir cynllun gweithredu i wella presenoldeb;

- ch) sicrhau bod gwybodaeth bresenoldeb eglur yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd i rieni drwy daflen yr ysgol, drwy gylchlythyrau, drwy nosweithiau rhieni neu drwy gyfryngau eraill; (dylid atgoffa rhieni'n benodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer sicrhau presenoldeb rheolaidd a phrydlon eu plant);
- d) sicrhau bod presenoldeb yn cael ei gofnodi'r rheolaidd ac yn gywir yn SIMS. Mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd anfon diweddariad wythnosol ar bresenoldeb i'r Swyddog Addysg Uwchradd ar y fformat y gofynnwyd amdano. Mae'n ofynnol i ysgolion cynradd sicrhau bod SIMS yn cael ei ddiweddarau'n wythnosol;
- dd) casglu a gwneud defnydd effeithiol o ddata presenoldeb i fonitro cynnydd/tueddiadau a gosod targedau ar gyfer gwella – ar gyfer unigolion, dosbarthiadau, grwpiau bregus, grwpiau blwyddyn a'r ysgol gyfan;
- e) sicrhau bod pob disgybl wedi ei gofrestru'n gywir mewn perthynas â disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r gwahanol grwpiau bregus (gweler Atodiad 5). Caniatáu monitro cywir presenoldeb a chynnydd;
- f) darparu arweiniad clir i staff ar arfer cofrestru a materion cysylltiedig megis y dosbarthiadau priodol o absenoldeb;
- ff) adnabod gweithdrefnau clir i adnabod a dilyn pob absenoldeb a hwyrni (gan ddyrannu swyddogaethau a chyfrifoldebau staff unigol);
- g) adnabod pwysigrwydd hanfodol ymyriad cynnar a sefydlu strategaethau ataliol priodol, megis cyswllt diwrnod cyntaf, yn arbennig mewn perthynas â disgyblion y gwyddys eu bod â phresenoldeb gwael neu a allai fel arall gael eu hystyried o fod mewn perygl;
- ng) monitro triwantiaeth ôl-gofrestriad drwy gymryd cofrestrau dosbarth a gwiriadau yn y fan a'r lle a sicrhau bod rhieni unrhyw driwantiaid ôl-gofrestru yn cael eu hysbysu'n brydlon a lle bo'n angenrheidiol yn cael eu cynnwys yn ymarferol;
- h) bod yn effro i amserau hanfodol (e.e. trosglwyddo Cyfnod Allweddol 2/3);
- i) adnabod ystod o strategaethau rhagweithiol ac adweithiol i hybu presenoldeb a mynd i'r afael ag absenoldeb, yn arbennig



absenoldeb parhaus;

- j) sefydlu hierarchiaeth glir a diamwys o sancsiynau;
- l) datblygu cynlluniau cymhelliad presenoldeb sy'n adnabod cyflawniadau presenoldeb disgyblion;
- ll) sefydlu rhwydweithiau effeithiol ar gyfer cysylltu ag asiantaethau a gwasanaethau ac ymwneud arall megis Swyddogion Lles Addysg (SLIA/ EWO), y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gyrfa Cymru, yr Heddlu, Iechyd, ayyb;
- m) gweithio gyda'r Cyngor, yr Heddlu a'r SLIA mewn perthynas â gweithredu ysgubiadau triwantiaeth;
- n) sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ailymdoddi rhai a fu'n absennol yn hirdymor a disgyblion a all, am resymau penodol, fod wedi bod ar amserlen lai;
- o) darparu cwricwlwm diddorol, hyblyg, a hygyrch sy'n annog presenoldeb rheolaidd;
- p) sefydlu cyfundrefn o gyfarfodydd strwythuredig rheolaidd rhwng staff ysgol a'r SLIA;
- ph) sicrhau y cymerir camau rhesymol gan yr ysgol yn cynnwys, llythyrau rhybuddio, cyn y gwneir cyfeiriad at y SLIA;
- r) pwysleisio i rieni bwysigrwydd parhad dysgu, yn arbennig mewn perthynas â gwyliau teuluol yn ystod amser tymor (dylai ysgolion roi gwyliau amser tymor yn gynnil, os o gwbl);
- rh) adnabod aelod o uwch-staff allweddol gyda chyfrifoldeb cyffredinol am bresenoldeb;
- s) sicrhau yr adnabyddir ac y lledaenir yr arfer dda;
- t) dylai'r polisi gael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd;
- th) cynorthwyo i greu ethos a diwylliant sy'n annog presenoldeb da, mynd i'r afael ag achosion ysgol-seiliedig o bresenoldeb gwael megis bwlio, hiliaeth, cwricwlwm amhriodol, ayyb.

### 3.0 CYFRIFOLDEBAU LLYWODRAETHWYR

- 3.1 Mae Llywodraethwyr yn y pen draw yn gyfrifol am bresenoldeb. Yn y cyd-destun hwn disgwylir i Lywodraethwyr:
- a. weithio'n agos gydag aelod allweddol o'r staff gyda chyfrifoldeb cyffredinol am bresenoldeb;
  - b. herio lefelau presennol presenoldeb a thargedau a osodwyd gan yr ysgol ac ymateb i faterion cysylltiedig â phresenoldeb;
  - c. monitro presenoldeb ysgol mewn cymhariaeth â thueddiadau cyffredinol, grwpiau targed ac yn nhermau data CAD;
  - ch. sicrhau os yw'r ysgol wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf bod ganddynt gynllun gweithredu i wella presenoldeb;
  - d. monitro perfformiad yn erbyn cynllun gweithredu/strategaeth i wella presenoldeb;
  - dd. sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu ei swyddogaeth mewn perthynas â chadw data presenoldeb yn ddiweddar, yn gywir a rhoi adroddiad i'r Cyngor.

## 4.0 CYFRIFOLDEBAU RHINI

- 4.1 Mae rhieni'n gyfrifol yn y gyfraith (adran 7 o Ddeddf Addysg 1996) am sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol lle maent wedi eu cofrestru'n rheolaidd, yn brydlon, wedi eu gwisgo'n briodol ac mewn cyflwr addas i ddysgu. (Mae rhieni hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn aros yn yr ysgol unwaith eu bod wedi cofrestru.)
- 4.2 Gall rhieni wneud llawer iawn i gefnogi presenoldeb rheolaidd a phrydlon eu plant. Dylai rhieni:
- a) gymryd diddordeb gweithredol ym mywyd a gwaith ysgol eu plant;
  - b) mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau ysgol eraill;
  - c) sicrhau bod eu plentyn yn cwblhau ei (g)waith cartref ac yn mynd i'r gwely ar amser priodol;
  - ch) bod yn ymwybodol o lythyrau o'r ysgol y mae eu plentyn yn ddod adref;
  - d) sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd bob dydd;
  - dd) sicrhau nad yw eu plentyn ond yn colli'r ysgol am resymau na ellir eu hosgoi neu y gellir eu cyfiawnhau, megis salwch neu ddyddiau defodau crefyddol;
  - e) rhoi gwybod i'r ysgol cyn gynted ag y bo modd – o ddewis ar y bore cyntaf – o unrhyw absenoldeb;
  - f) sicrhau bod manylion cyswllt cyfredol yn cael eu darparu i'r ysgol i gynorthwyo cyswllt;
  - ff) cadarnhau yn ysgrifenedig pan fo'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol;
  - g) osgoi archebu gwyliau teuluol yn ystod amser tymor;
  - ng) siarad â'r ysgol os ydynt yn bryderus y gall eu plentyn fod yn amharod i fynychu;
  - h) gweithio gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo gwelliant mewn presenoldeb.

## 5. CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR (AALI)

- 5.1 Ceir pedwar maes allweddol o weithgaredd mewn perthynas â chefnogaeth a her y Cyngor i ysgolion, disgyblion a rhieni:
- a) gwaith SLIA lleol-seiliedig;
  - b) gwaith gwasanaethau cefnogi'r Cyngor;
  - c) datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau amlasiantaethol;
  - ch) darpariaeth gwricwlaidd amgen ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 lle'r ystyrir bod darpariaeth bresennol yn amhriodol.
- 5.2 Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Safonau ac Effeithiolrwydd, ac ar y cyd byddant yn cynnig her a chefnogaeth i ysgolion mewn materion presenoldeb. Ar y cyd byddant yn:
- a) ymweld yn dymhorol i herio ysgolion ar lefelau presenoldeb presennol o'u cymharu â thargedau;
  - b) asesu cynnydd a gyflawnwyd tuag at gyfarfod â thargedau presenoldeb;
  - c) ystyried data presenoldeb ysgol a chymharu hyn â data meincnodi cymharol er mwyn asesu perfformiad;
  - ch) ystyried perfformiad presenoldeb minteioedd disgybl a adnabuwyd;
  - d) cynnig cefnogaeth a her i'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir yn cefnogi presenoldeb da;
  - dd) cysylltu â gwasanaethau cefnogi perthnasol yn unol â hynny.

## **6.0 CEFNOGAETH Y CYNGOR – SWYDDOGAETH SWYDDOGION LLES ADDYSG**

- 6.1 Pwrpas sylfaenol y SLIA yw mwyhau graddfeydd presenoldeb ar gyfer disgyblion unigol, ysgolion unigol ac ar gyfer sir Ynys Môn yn ei chyfanrwydd a chyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor i sicrhau bod pob disgybl o oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas. Bydd SLIA hefyd yn cynorthwyo i symud rhwystrau a all atal plentyn sy'n derbyn addysg.
- 6.2 Bydd SLIA yn cyflogi tair prif strategaeth rymg-gysylltiedig a rhyngannibynnol i sicrhau bod disgyblion cofrestredig o oed ysgol gorfodol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon:
- a) fel cynrychiolwyr awdurdodedig y Cyngor, monitro presenoldeb drwy archwilio cofrestrau'n rheolaidd a chysylltu â staff yr ysgol;
  - b) ymgymryd â gwaith achos unigol gyda disgyblion nad ydynt yn mynychu a'u rhieni;
  - c) cynnig cymorth, cefnogaeth a her strategol i alluogi ysgolion i ddatblygu eu systemau a'u harferion ar gyfer rheoli presenoldeb.

### **Gwaith achos y SLIA**

- 6.3 Pan fo disgybl gydag anawsterau presenoldeb yn cael ei gyfeirio at SLIA bydd ef neu hi'n ymrwymo mewn gwaith achos unigol. Ymgymerir â gwaith achos SLIA gyda disgyblion a'u rhieni er mwyn peri dychweliad disgybl i bresenoldeb rheolaidd. Bydd y SLIA yn adnabod amgylchiadau unigol ac yn rhoi ystyriaeth iddynt ac yn ymateb yn unol â hynny. Bydd dychweliad cyflym y disgybl i bresenoldeb rheolaidd, fodd bynnag, bob amser yn bryder o bwys. Bydd y SLIA yn cyflogi ystod o arferion a strategaethau yn ei (g)waith achos a bydd, pan fo'n angenrheidiol, yn cyfuno cymorth gyda thaerineb.
- 6.4 Mewn rhai enghreifftiau gall ymyriad y SLIA fod yn gyfyngedig i ymweliad cartref SLIA sengl er mwyn atgoffa rhieni o'u cyfrifoldebau cyfreithiol neu i gynorthwyo i ddatrys anhawster arbennig ac a adnabuwyd. Mewn enghreifftiau eraill mae modd bod resymau cymhleth ac wedi eu gwreiddio'n ddwfn pan nad yw'r disgybl yn mynychu. Mewn sefyllfaoedd o'r fath gall y SLIA drafod cynllun cefnogi (gall hwn gynnwys cyfeirio at asiantaethau eraill, neu ymwneud asiantaethau eraill, galw ynghyd gyfarfod amlasiantaethol ac felly ymlaen).

- 6.5 Bydd pob gwaith achos SLIA yn cynnwys cyswllt agos a pharhaus gydag ysgol y disgybl, (bydd SLIA yn sicrhau bod ysgolion yn derbyn adborth rheolaidd ar ddisgyblion yr ymgymherir â gwaith gyda hwy). Mewn achosion lle gall prif achosion diffyg presenoldeb fod yn ysgol-berthynol (e.e. bwlio neu hiliaeth honedig, pwysau cymheiriaid, anawsterau gyda gwerau neu athro arbennig) bydd y SLIA yn trafod y rhain gyda'r ysgol er mwyn datblygu strategaethau i oresgyn yr anawsterau hyn.

### **Cyfeiriadau i'r SLIA**

- 6.6 Bydd cyfeiriadau i'r SLIA yn arferol yn cael eu gwneud gan ysgolion. Ceir, fodd bynnag, achlysuron pan fydd asiantaethau/gwasanaethau eraill neu rieni yn gallu cyfeirio.
- 6.7 Cyn derbyn cyfeiriad o ysgol bydd y SLIA yn disgwyl i'r ysgol fod wedi ymgymryd yn gyntaf â nifer o gamau i fynd i'r afael â diffyg presenoldeb y disgybl. Byddai'r rhain yn cynnwys:
- a) gweithredu gan yr athro dosbarth/athro dosbarth cofrestru;
  - b) gweithredu gan y Pennaeth Blwyddyn (uwchradd) neu'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth (cynradd);
  - c) cysylltiad â rhieni; mae SLIA yn annog ysgolion i weithio i 'gyfundrefn 3 llythyr', y mae ei defnydd yn cynnwys yr ysgol yn anfon dilyniant o lythyrau o bryder at y rhieni cyn cynnwys y SLIA yn ffurfiol.
- 6.8 Gwneir mwyafswm llethol y cyfeiriadau i'r SLIA ar sail peidio â mynychu (cymerir cyfeiriadau'n achlysurol mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant, cludiant neu faterion cyflogaeth oedran ysgol).
- 6.9 Derbynnir cyfeiriadau'n arferol mewn perthynas ag absenoldeb nad yw wedi ei awdurdodi gan yr ysgol. (Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir cyfeiriadau mewn perthynas ag absenoldeb awdurdodedig).
- 6.10 Gellir gwneud cyfeiriadau pan yw:
- a) patrwm o absenoldeb afreolaidd wedi datblygu;
  - b) patrwm rheolaidd o ddiffyg presenoldeb ar ddyddiau arbennig;
  - c) cyfnod o ddiffyg presenoldeb wedi hen ymwreiddio wedi dechrau;

- ch) cyfathrebu gan yr ysgol â'r rhieni wedi cyfarfod ag ychydig neu ddim ymateb;
- d) ceir tystiolaeth o ddiffyg cydweithrediad rhieni mewn sicrhau presenoldeb rheolaidd plentyn;
- dd) patrwm o driwantiaeth ôl-gofrestru yn parhau er gwaethaf ymdrechion yr ysgol i'w atal;
- e) rhiant yn tynnu disgybl allan o'r ysgol wedi mynegi bwriad i'w (h)addysgu heb fod mewn ysgol (Addysg Gartref Ddewisol);
- f) tynnir disgybl allan o'r ysgol gan y rhieni sy'n symud i ardal arall ac nid oes gan yr ysgol ysgol/darparwydd cyrchfan wedi ei chadarnhau/gadarnhau lle bydd y plentyn yn ailddechrau ei(h)addysg (bydd disgyblion o'r fath yn cael eu trin fel "plant sy'n colli addysg");
- ff) patrwm o hwyrni parhaus wedi datblygu;
- g) ceir pryderon amddiffyn plant;
- ng) ceir materion lles penodol ac y gellir eu hadnabod sy'n rhwystro disgybl rhag cael mynediad i addysg.

### **Ymweliadau SLIA ag Ysgolion**

- 6.11 Gwneir cyfeiriadau i'r SLIA yn ystod ymweliadau ymgynghori rheolaidd. Bydd amlder yr ymweliadau hyn yn unol â lefel angen gydag ysgolion unigol yn cael eu hadnabod. (Gellir gwneud cyfeiriadau ar y ffôn, e-bost neu lythyr y tu allan i'r ymweliadau hyn).
- 6.12 Os bydd ysgol yn anfodlon gyda lefel neu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan ei SLIA yna dylid cysylltu â'r Swyddog Ysgolion Uwchradd.

### **Polisi'r SLIA ar Waith Achos Gwahardd**

- 6.13 Yn ddelfrydol ni fydd SLIA yn cau achos ond pan fo disgybl yn dychwelyd i bresenoldeb rheolaidd neu'n peidio â bod o oed ysgol gorfodol.
- 6.14 Mewn amgylchiadau pan fo gwaith achos gweithredol wedi ei ohirio bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro a bydd unrhyw gyswllt/ymgynghoriad angenrheidiol â gwasanaethau/asiantaethau



eraill yn digwydd. Bydd gwaith achos gweithredol yn ailddechrau os bydd newid mewn amgylchiadau sy'n awgrymu y bydd gwaith achos SLIA pellach yn gallu bod yn briodol.

- 6.15 Mewn unrhywun o'r sefyllfaoedd uchod bydd y SLIA yn trafod yr achos gyda'u rheolwr llinell a chyda'r ysgol.

### **Gwasanaethau SLIA Eraill**

- 6.16 Yn ogystal ag ymgymryd â gwaith achos gyda disgyblion unigol bydd y SLIA yn cynnig cefnogaeth a her strategol i ysgolion drwy weithio gyda'r timau rheoli ysgol ar bolisiâu a gweithdrefnau. Bydd SLIA yn hybu gwelliannau mewn rheolaeth ysgolion o bresenoldeb drwy'r strategaethau a restrir isod.

### **Rhaglenni Cefnogi Bugeiliol**

- 6.16 Bydd SLIA, lle bo'n briodol, yn cefnogi ysgolion mewn datblygu a gweithredu Rhaglenni Cefnogi Bugeiliol (RhCB/ PSP). Defnyddir RhCB pan ystyrir bod disgybl mewn perygl o beidio â mynychu a gwelir rhaglen hirdymor o ymyriad fel modd o gynorthwyo i'w (h)atal rhag disgyn allan o'r ysgol yn gyfan gwbl.
- 6.17 Bydd gwasanaethau eraill y Cyngor yn cynorthwyo yn y defnydd o RhCB ysgol-seiliedig. Ni ddefnyddir RhCB yn lle'r broses asesu anghenion addysgol arbennig.

### **Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol Cyfagos**

- 6.18 Mae cyfrifoldeb am fonitro presenoldeb disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar Ynys Môn yn gorwedd gyda SLIA Ynys Môn, waeth a yw'r disgybl yn byw y tu allan i'r Awdurdod ai peidio. Bydd pob SLIA, felly, yn gweithio'n agos gyda SLIA awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau dull cydgysylltiol a chydlynus o fynd at faterion presenoldeb ysgol.

### **Plant sy'n Colli Addysg**

- 6.19 Mae gan SLIA ran glir i'w chwarae i gynorthwyo i olrhain plant sy'n mynd ar goll o ysgolion ar Ynys Môn neu sy'n mynd ar goll o ysgolion o awdurdodau eraill ac a all fod wedi symud i Ynys Môn. Cymhellir ysgolion yn gryf i ddilyn gweithdrefnau cyfatebol mewn perthynas â'r disgyblion hynny a symudir o'r ysgol gan eu rhieni heb gyrchfan ysgol a enwir yn cael ei darparu a'i chadarnhau.



## Ysgubiadau Triwantiaeth

- 6.20 Mae SLIA yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau y gweithredir Ysgubiadau Triwantiaeth pan fo'n angenrheidiol yn ôl protocol yr Heddlu – Awdurdod Lleol cytunedig. Bydd SLIA yn cysylltu ag ysgolion lleol mewn perthynas ag Ysgubiadau Triwantiaeth fel a phryd y bo'n angenrheidiol.

## **7.0 CEFNOGAETH Y CYNGOR – GWASANAETHAU ERAILL Y CYNGOR**

### **Trefniadau ar gyfer Gwneud Darpariaeth Amgen I Blant Allan o'r Ysgol**

- 7.1 Bydd SLIA yn gwneud pob ymdrech i gefnogi disgybl i ddychwelyd i bresenoldeb llawn amser rheolaidd yn yr ysgol. Mewn amgylchiadau eithriadol, fodd bynnag, gall mynediad i raglen amgen drwy Athro Cefnogi Ymddygiad Cynradd ysgol a'r Swyddog Mynediad Ieuentid fod yn ddewis i sicrhau bod y disgybl yn cymryd rhan mewn addysg.

### **Darpariaeth amgen ar gyfer Disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4**

- 7.2 Fel rhan o'u strategaeth ar gyfer gwella cyfranogiad mewn addysg, gall ysgolion drafod gyda'u SLIA y dewis o gyfeirio disgyblion i 'raglenni amgen' Cyfnod Allweddol 4. Mewn achosion o'r fath bydd y disgybl fel arfer yn dod yn ddyblyg gofrestredig yn yr ysgol ac yn EOTAS (addysg heb fod mewn ysgol). Os ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y disgybl yn dychwelyd i ysgol briffrwd bydd ef/hi yn cael ei (d)ileu o gofrestr yr ysgol a'i (g)osod yn unig ar gofrestr EOTAS.
- 7.3 Ystyrir y dewis hwn yn unig mewn amgylchiadau lle mae:
- a) pob strategaeth arall wedi methu (neu'n debygol o fethu) i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol;
  - b) yn glir drwy asesiad gofalus o'r disgybl bod darpariaeth addysgol amgen yn debygol o fod yn ffordd fwyaf priodol o gyfarfod ei (h)anghenion addysgol.
- 7.4 Yn yr achosion hyn lle nad yw'r ysgol yn barod i wneud cyfeiriad, a bod yr amodau a osodwyd ym mharagraff 7.3 yn gymwys, bydd y SLIA sy'n dal yr achos yn cysylltu â'i R(h)eolwr Lleoliad a all ddilyn cyhoeddi cyfeiriad gyda'r ysgol. Os nad yw'r ysgol yn dal i ddymuno derbyn y dewis hwn yna:
- a) bydd y disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol;
  - b) bydd y SLIA yn ailystyried y dewisiadau eraill;
  - c) gall y SLIA wneud cais i'w R(h)eolwr Lleoliad i gau'r achos lle mae'n glir bod y dewisiadau eraill hyn yn annhebygol o lwyddo.

## **Plant sy'n Gwrthod Mynychu'r Ysgol**

7.5 Mewn rhai achosion mae'n anodd gwahaniaethu'n glir rhwng plentyn sydd wedi ei drawmateiddio'n seicolegol gan y disgwyliad o fynychu'r ysgol a phlentyn yn syml nad oes arno eisiau mynd i'r ysgol. Mae'n glir, fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath yr hwyaf y mae'r plentyn yn aros allan o addysg y mwyaf anodd y bydd i sicrhau dychweliad i bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Pan wneir cyfeiriad ac y derbynir ef gan y SLIA, ac wedi i'r SLIA ddilyn pob strategaeth arall i sicrhau dychwelyd i'r ysgol, gall fod yn briodol cynnal arolwg achos yn cynnwys y SLIA, y Swyddog Mynediad Ieuencid, y Swyddog Ysgolion Uwchradd a'r Athro Cefnogi Ymddygiad. Os penderfynir nad yw dychweliad uniongyrchol i'r ysgol yn ddewis realistig yna gellir gwneud cyfeiriad ar gyfer darpariaeth addysgol amgen gan ysgol y disgybl. Bydd unrhyw ddarpariaeth addysgol amgen o'r fath ar sail cyfyngiad amser gyda golwg ar i ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol yn defnyddio cofrestrriad dyblyg lle mae hynny'n briodol.

## **Ailintegreiddio Rhai Nad Ydynt Yn Mynychu'n Hirdymor**

- 7.6 Gwneir darpariaeth i gefnogi ail-integreiddio drwy SLIA, yr Ysgol a'r Swyddog Mynediad Ieuencid ar sail cyfyngiad amser gyda dealltwriaeth eglur gan y disgybl a'i r(h)iant mai dychwelyd i'r ysgol yw'r nod. Gellir ystyried darpariaeth o'r fath yn yr amgylchiadau a ganlyn:
- a) ceir tystiolaeth bod strategaethau a dewisiadau eraill wedi eu dilyn ond nad ydynt wedi llwyddo;
  - b) ceir parodrwydd ar ran y disgybl a'r rhiant i dderbyn y darperir y gefnogaeth gyda golwg ar wireddu dychweliad i'r ysgol.

## **Polisi a threfniadau ar gyfer plant gyda datganiadau o AAA sy'n dod yn Rhai nad ydynt yn Mynychu**

7.7 Pe bai plentyn gyda datganiad yn profi anawsterau yn mynychu'r ysgol dylid gwneud cyfeiriad at y SLIA. Bydd y SLIA yn dilyn ystod o strategaethau i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn cynnwys y defnydd o fesurau cyfreithiol lle bo'n briodol. Os bydd y diffyg presenoldeb yn parhau ac yn profi'n amhosibl i'w ddatrys yn defnyddio'r strategaethau hyn bydd y SLIA yn hysbysu'r Swyddog Addysg AAA fel y gellir ystyried yr anhawster yn rhan o arolwg y datganiad. Gall rhan o'r arolwg hwnnw ystyried a yw gosod y disgybl yn y sefydliad addysgol gwreiddiol yn dal yn briodol. Gellir rhoi ystyriaeth i leoli (yn llawn amser

neu'n rhan-amser) ar un o'r rhaglenni addysgol y tu allan i'r ysgol a drefnir gan Wasanaeth EOTAS yn arbennig ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.

### **Swyddogaeth staff Gyrfa Cymru**

7.8 Mae staff Gyrfa Cymru sy'n lleoliad-seiliedig yn gweithio'n agos gyda SLIA. Pe bai SLIA yn cau achos pan fo disgybl sy'n dal o oed ysgol gorfodol yn parhau allan o'r ysgol gwneir cyfeiriad at yr Ymgynghorydd Personol sy'n gysylltiedig ag ysgol y disgybl hwnnw. Bydd y SLIA hefyd yn cysylltu â staff Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau y gall plant a addysgir gartref gael mynediad i'w hawl gyrfaoedd/profiad gwaith.

### **Swyddogaeth Gweithwyr Ieuencid**

7.9 Mae Gweithwyr Ieuencid arfaethedig yn rhoi blaenoriaeth uchel i weithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 19 oed nad ydynt â chymhelliad uchel nac yn llwyddiannus yn yr ysgol ac maent wedi datblygu arddulliau o weithio a dulliau cyflwyno sy'n galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon i geisio ailymrwymo'u diddordeb mewn addysg.

7.10 Mae Gweithwyr Ieuencid wedi sefydlu neu maent yn ymwneud â chynlluniau niferus sy'n cefnogi presenoldeb ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a) Cynlluniau Potensial, sy'n rhoi i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhai nad ydynt yn mynychu, gyfleoedd i ennill hunan-barch a hyder; a derbyn dulliau amgen o ennill achrediaidau.
- b) Gweithredu Cymunedol a gwirfoddoli drwy gyfranogiad ymarferol pobl ifanc ac ymwneud democrataidd.

7.11 Mae'r uchod yn ychwanegol at y gwaith generig a weithredir drwy'r ysgol neu grŵp EOTAS (yn aml mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol) ac mewn partneriaeth â llawer o gyrrff statudol megis grwpiau Tasgau Diogelwch Cymunedol, gofal cymdeithasol, Tîm Gweithredu Cyffuriau. Mae'r gwaith hwn yn aml wedi ei ariannu'n amlasiantaethol.

7.12 Bydd staff y Gwasanaeth Ieuencid yn ceisio datblygu cyfleoedd ariannu i ymestyn a datblygu'r cynlluniau hyn.

## **Swyddogaeth ESLAC**

- 7.13 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth un pwrpas i gynnig cefnogaeth addysgol i blant y gofelir amdanynt (ESLAC). Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion, y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cefnogi eraill y Cyngor er mwyn hybu addysg plant y gofelir amdanynt (Gweler adrannau 9.1-9.6 isod). Mae Hyfforddwr Dysgu CA4 yn cael ei gyflogi yn gefnogaeth ychwanegol ar gyfer LAC i gynorthwyo i sicrhau presenoldeb a chyflawniad.

## **Swyddogaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth Rheoli**

- 7.14 Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Rheoli'n cefnogi gwasanaethau Cyngor perthnasol i ddarparu i ysgolion wybodaeth fanwl berthynol i faterion presenoldeb/absenoldeb a bydd yn cynorthwyo i ddadansoddi a chwestiynu'r wybodaeth hon.
- 7.15 Mae ysgolion i sicrhau y cedwir gwybodaeth yn gyfredol (bob wythnos) ac yn gywir i ganiatáu i ddadansoddiad gwerthfawr ddigwydd.

## 8.0 POLISI'R CYNGOR AR ERLYN RHIENI

- 8.1 Bydd y cyngor yn gyntaf yn dihysbyddu pob strategaeth sydd ar gael iddo'i hun ac i'r ysgolion wrth geisio ennill lefel dda o bresenoldeb gan bob disgybl. Mewn achosion lle mae hynny'n methu yna bydd y cyngor yn edrych ar bob dewis sydd ar gael mewn perthynas â'r penderfyniad i erlyn rhieni a dewis y mesur priodol i sicrhau presenoldeb.

### Gorchmynion Presenoldeb Ysgol

- 8.2 Bydd SLIA yn cyflwyno Gorchmyn Presenoldeb Ysgol (GPY/SAO) (o dan adrannau 437-439 o Ddeddf Addysg 1996) ar rieni plentyn o oed ysgol gorfodol os bydd y rhieni wedi methu ag arddangos bod y plentyn yn derbyn addysg addas ac os yw'r Awdurdod Lleol yn credu y dylai'r plentyn fynychu'r ysgol.
- 8.3 Bydd y GPY/ SAO yn nodi'r ysgol (neu'r Uned Gyfeirio Disgybl) y dylai'r plentyn ei mynychu. Pe bai'r rhieni'n methu â chydymffurfio â'r GPY/ SAO bydd y SLIA yn dechrau achos cyfreithiol o dan Adran 443 o Ddeddf Addysg 1996 (oni all y rhieni brofi bod y plentyn yn derbyn addysg addas).

### Gorchmynion Goruchwyllo Addysg

- 8.4 Cyn dechrau erlyniad o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 bydd y SLIA yn ystyried a yw'n briodol gwneud cais am Orchymyn Goruchwyllo Addysg (GGA/ ESO) o dan adran 36 o Ddeddf Plant 1989. Pwrpas GGA/ ESO yw gosod plentyn nad yw'n cael ei addysgu'n briodol o dan oruchwylloeth yr Awdurdod Lleol. Mae GGA/ ESO yn amcanu at sicrhau bod y plentyn yn derbyn addysg lawn amser a'i fod ef neu ei bod hi a'r rhieni'n derbyn cefnogaeth, cyngor ac arweiniad dwys gan Swyddog Goruchwyllo y mae'n ofynnol iddo/iddi *"gynghori, cynorthwyo a bod yn gyfaill"*.
- 8.5 Gwneir cais am GGA/ ESO yn unig pan fydd un neu fwy o'r rhai canlynol yn gymwys:
- a) pob ymdrech arall i wella presenoldeb y disgyblion wedi methu ac yr ystyrir bod erlyn y rhieni'n amhriodol;
  - b) y rhieni'n ymddangos yn debygol o gydweithredu gyda rhaglen o waith strwythuredig wedi ei pharatoi gan swyddog goruchwyllo;
  - c) ceir cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r GGA/ ESO;

- ch) mae gwrandawriad llys ynadon wedi cyfarwyddo'r Awdurdod Lleol i wneud cais am GGA/ ESO;
- d) mae'r SLIA o'r farn y bydd y Gorchymyn yn cael effaith sylweddol ar ddiffyg presenoldeb y disgybl.

## Erlyn

8.6 Os bydd disgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol yn methu â mynychu'r ysgol honno'n rheolaidd a bod ymdrechion gan y SLIA a'r ysgol yn methu â sicrhau bod y disgybl yn dychwelyd i bresenoldeb rheolaidd bydd y SLIA, ar ran y Cyngor, oni fo amgylchiadau lliniarol, yn ystyried dilyn gweithredu cyfreithiol drwy gyhoeddi gwŷs yn erbyn y rhieni i ymddangos o flaen llys yr ynadon o dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. Wrth benderfynu p'run ai i ddilyn gweithredu cyfreithiol neu beidio, mae'n rhaid i'r SLIA fod yn fodlon bod:

- a) tystiolaeth ddigonol i ddarparu gobraith realistig o euogfarn; mae'n rhaid iddo ystyried beth a all yr achos amddiffyniad fod a sut mae hyn yn debygol o effeithio ar yr achos erlyn;
- b) mae yn Niddordeb y Cyhoedd i erlyn; mewn achosion o unrhyw ddifrifoldeb, bydd erlyniad fel arfer yn digwydd oni fo ffactorau o Ddiddordeb Cyhoeddus yn pwyntio yn erbyn erlyn, sydd yn eglur yn gorbwyso'r rhai sy'n ffafrio;
- c) unrhyw weithredu y mae'n ei gymryd yn cydymffurfio gyda thelerau'r Ddeddf Iawnderau Dynol.

Mewn achosion lle mae rhieni'n tynnu plentyn allan o ysgol yn fwriadol ac yn ymwybodol bydd y SLIA yn mynd ymlaen yn erbyn i'r rhieni ddefnyddio is-adran 1a o Adran 444 (y drosedd "ddifrifolach" sy'n drosedd garcharadwy).

Os ar ôl dilyn gweithredu cyfreithiol bod y disgybl yn dal i fethu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd, bydd y SLIA, os ystyrir yn briodol, yn dilyn gweithredu cyfreithiol pellach (wedi cyfnod o dri mis).

8.7 Bydd pob gweithredu cyfreithiol a gymerir gan y SLIA yn cael ei fonitro a'i adolygu.

## Gorchmynion Rhiantu

- 8.8 Bydd SLIA pan fo'n angenrheidiol yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chyda staff Gofal Cymdeithasol pan fo'r llysoedd, mewn perthynas ag achos o ddiffyg mynychu, yn gosod neu'n argymhell Gorchymyn Rhiantu. Bydd SLIA yn gweithredu fel y swyddog sy'n gyfrifol am Orchymyn o'r fath. (Pan fo adnoddau'n caniatáu gellir gwneud cyfeiriadau gwirfoddol i raglenni rhiantu.)



## **9.0 RHWYDWEITHIAU A PHARTNERIAETHAU AMLASIANTAETHOL**

- 9.1 Mae'r Cyngor yn adnabod bod rhesymau dros beidio â mynychu ysgol o'r fath na all unrhyw wasanaeth nac asiantaeth sengl ddisgwyl ar ei ben/phen ei hun fynd i'r afael â'r mater yn llwyddiannus. Mae'r Cyngor yn ymdrechu, felly, drwy ddatblygu gweithio Ardal a Bro i ddatblygu amlasiantaeth, croes-wasanaeth, dull rhyngddisgyblaethol sy'n cael ei nodweddu gan gyflwyniad ymateb plentyn-ganolog, diasiad, cydlynus ac effeithiol.

### **Gwasanaethau plant**

- 9.2 Mae staff Gwasanaethau Plant yn ymgymryd ag asesiadau plant mewn angen mewn cydweithrediad â phroffesiynolwyr perthnasol eraill. Bydd yr asesiad yn edrych ar bob agwedd ar anghenion datblygu'r plentyn, yn cynnwys ei (h)anghenion addysgol a bydd yn rhoi blaenoriaeth ddyledus bod y disgyblion hyn yn mynychu ar sail reolaidd. Bydd SLIA yn dwyn i sylw staff gofal cymdeithasol blant sydd wedi eu cyfeirio atynt oherwydd anawsterau presenoldeb a all yn eu barn broffesiynol fod angen cefnogaeth ychwanegol yn unol â meini prawf cymhwyster y Cyngor ar gyfer plant mewn angen.

### **Gwasanaeth lechyd**

- 9.3 Mae plant sy'n absennol o'r ysgol am gyfnodau estynedig o amser oherwydd gwaeledd yn derbyn hyfforddiant cartref. (Mae'n rhaid i natur y gwaeledd gael ei gadarnhau gan Feddyg Teulu). Pe bai ysgol y plentyn a'r SLIA yn ystyried efallai y gallai problem peidio â mynychu fod yn gysylltiedig â mater iechyd meddwl yna rhoddir ystyriaeth i wneud cyfeiriad at Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Llencyndod. Lle ceir diagnosis o salwch meddwl bydd y SLIA yn cymryd cyngor o CAMHS ar yr oblygiadau sydd gan hyn ar gyfer gweithio gyda'r plentyn a'i r(h)ieni i sicrhau dychwelyd at bresenoldeb rheolaidd.

### **Yr Heddlu**

- 9.4 Mae'r Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno ar brotocol mewn perthynas ag Adran 16 o Ddeddf Trosedd ac Annhrefn 1998. (Mae'r adran hon o'r Ddeddf yn darparu grym i'r heddlu fynd â thriwantiad yn ôl i'r ysgol neu i le arall a ddynodwyd gan y Cyngor). Adolygwyd y protocol hwn yn 2012. (Gweler 5.26 uchod.)

## **Prosiect Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)**

- 9.5 Bydd y tîm o amgylch y teulu'n gweithio'n agos gyda SLIA i gefnogi teuluoedd sy'n brwydro.
- 9.6 Bydd SLIA yn gallu cyfeirio teuluoedd y mae ganddynt bryderon yn eu cylch mewn perthynas â phresenoldeb, lle nad yw strategaethau eraill wedi bod yn llwyddiannus.
- 9.7 Un o flaenoriaethau allweddol prosiect TAT wrth weithio gyda theuluoedd unigol fydd mynd i'r afael â gwella presenoldeb mewn ysgol.

## **10.0 CEFNOGI PRESENOLDEB DISGYBLION BREGUS NEU DDISGYBLION GYDAG ANGHENION YCHWANEGOL**

### **Polisi a Threfniadau ar gyfer Cefnogi Plant y Gofelir Amdanynt**

- 10.1 Mae'r Cyngor yn adnabod bod plant y gofelir amdanynt wedi perfformio'n dda fel grŵp a'i fod yn benderfynol o gynnal y sefyllfa hon.
- 10.2 Mae gwasanaeth y Cyngor sy'n darparu Cefnogaeth Addysgol i Blant y Gofelir amdanynt (ESLAC) wedi arwain cyfrifoldeb am sicrhau bod plant y gofelir amdanynt yn derbyn cefnogaeth addysgol briodol a chydlynus.
- 10.3 Bydd cydlynwyr ysgolion LAC-seiliedig yn cysylltu â gweithiwr cymdeithasol plentyn neu Swyddog Cyswllt Addysg LAC a (phan fo'n berthnasol) gyda'i SLIA.
- 10.4 Dylai pob ysgol enwebu Athro Dynodedig ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Bydd gan yr athro/athrawes hwn/hon ran cydlynu a monitro allweddol gyda golwg ar bresenoldeb plant y gofelir amdanynt yn ei (h)ysgol.
- 10.5 Bydd ESLAC yn casglu ac yn monitro data presenoldeb pob plentyn y gofelir amdanynt ar Ynys Môn a bydd yn defnyddio'r data hwn i lywio cynllunio cefnogaeth addysgol bellach ar gyfer plant y gofelir amdanynt.

### **Polisi a threfniadau ar gyfer Cefnogi Gofalwyr Ifanc**

- 10.6 Mae'r Cyngor yn adnabod y gall nifer o blant fod yn hwyr i'r ysgol neu'n absennol o'r ysgol o ganlyniad i'w cyfrifoldebau mewn perthynas â gofalu am riant neu frawd neu chwaer sâl neu anabl.
- 10.7 Mae Protocol Gofalwyr Ifanc y Cyngor yn adnabod cyfrifoldeb staff mewn perthynas â Gofalwyr Ifanc.
- 10.8 Dylai ysgolion ymateb yn gydymdeimladol i anghenion gofalwyr ifanc ond dylai gyfuno hyn gydag adnabyddiaeth bod y plant hyn er hynny â hawl lawn i gyfranogi ym mhob gweithgaredd addysgol.
- 10.9 Dylai cyfeirio gofalwyr ifanc at asiantaethau allanol gael ei wneud yn sensitif, gan adnabod unrhyw deimladau o euogrwydd y gall y plentyn unigol fod yn ei brofi.
- 10.10 Gall ysgolion ystyried dynodi athro i fod â chyfrifoldeb am ofalwyr ifanc. Gall yr athro hwn allu cael mynediad i gynlluniau lleol o gefnogaeth.

- 10.11 Mae modd y bydd SLIA hefyd yn gallu cynnig cyngor i'r ysgol ar sut i gefnogi gofalwyr ifanc.

### **Polisi a Threfniadau ar gyfer Cefnogi Presenoldeb Disgyblion sydd ag neu a all fod ag Anghenion Addysgol Arbennig**

- 10.12 Mae'r Cyngor yn adnabod y gall anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys AAA sydd heb eu hadnabod neu heb eu cyfarfod, rwystro rhai plant rhag mynychu'r ysgol. Mae SLIA, Seicolegwyr Addysgol a staff gwaith cefnogi eraill y Cyngor gyda Chydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, staff ysgol eraill a chyda'r disgybl lle mae pryderon y gall presenoldeb gwael disgybl fod yn berthynol i AAA heb eu hadnabod neu heb eu cyfarfod. Mae SNAP Cymru, yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth i rieni plant a phobl ifanc gydag AAA.

### **Polisi a Threfniadau ar gyfer Cefnogi Presenoldeb Disgyblion a all fod wedi cael eu bwlio**

- 10.13 Mae'r Cyngor yn adnabod bod bwlio'n fater sy'n atal rhai plant rhag mynychu'r ysgol neu rhag cyflawni eu potensial llawn pan nad ydynt yn mynychu.
- 10.14 Bydd SLIA yn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion yr effeithir ar eu presenoldeb gan fwlio gwirioneddol neu ganfyddadwy.
- 10.15 Bydd staff Eraill y Cyngor (Seicolegwyr Addysgol, Athrawon Cefnogi Ymddygiad Cynradd, Amddiffyn Plant a Swyddogion Addysg) yn darparu cefnogaeth, cyngor a chymorth ychwanegol pan fo'n angenrheidiol.

## Polisi aThrefniadau ar gyfer Cefnogi Presenoldeb Grwpiau Bregus eraill

10.16 Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ymateb yn brydlon i gefnogi presenoldeb ysgol unrhyw grŵp o blant a all fod yn fregus. Gallai grwpiau o'r fath gynnwys:

- grwpiau ethnig lleiafrifol;
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches;
- gweithwyr symudol;
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog;
- troseddwyd ifanc;
- plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd;
- disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol;
- disgyblion gydag anghenion Sgiliau Sylfaenol; a
- sipsiwn a theithwyr.

## Atodiad 1

### DOGFENNAU A CHYFEIRIADAU ALLWEDDOL

Fframwaith Presenoldeb Cymru-Gyfan

Arweiniad ar godau Presenoldeb Ysgol Hydref 2010

Dulliau ymarferol o fynd at reoli ymddygiad yn y dosbarth Dogfen wybodaeth Rhif: 086/2010

Estyn, Gwella Presenoldeb (2006)

NAFWC 47/2006 – Cynhwysiad ac arweiniad cefnogi disgyblion

Gwaharddiadau o'r ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion 001/2004

Gwneud gwahaniaeth ar gynllun gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb 2011/13

Symudiadau rheoledig effeithiol – dechrau o'r newydd yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc dogfen wybodaeth 096/2011

## Atodiad 2

### GRADDFEYDD PRESENOLDEB/ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG AR YNYS MÔN AC YN GENEDLAETHOL

#### A Graddfeydd presenoldeb (Ynys Môn)

	08/09	09/10	10/11	11/12
Cynradd	93.9	93.8	93.5	94.3
Uwchradd	91.1	90.6	90.9	92.2

#### Graddfeydd Absenoldeb Anawdurdodedig (Ynys Môn)

	08/09	09/10	10/11	11/12
Cynradd	0.6	0.5	0.7	0.6
Uwchradd	0.9	1.1	1.3	0.7

#### B. Graddfeydd Presenoldeb (Cymru)

	08/09	09/10	10/11	11/12
Cynradd	93.2	93.1	93.3	93.8
Uwchradd	91.0	91.1	91.4	92.2

#### Graddfeydd Absenoldeb Anawdurdodedig (Cymru)

	08/09	09/10	10/11	11/12
Cynradd	1.0	1.0	0.9	0.7
Uwchradd	1.7	1.6	1.5	1.4

### Atodiad 3

#### Targedau Presenoldeb Ysgolion Ynys Môn

O dan y Rheoliadau Addysg (Targedau Presenoldeb Ysgol) mae'n ofynnol i bob ysgol osod nod blynyddol ar gyfer lleihau absenoldeb cyffredinol. 'Roedd yn ofynnol i ysgolion gytuno nodau ar gyfer 2013-14 gyda'r ALL erbyn 31<sup>ain</sup> Rhagfyr 2012. Gosodwyd nodau gan yr ALL i ysgolion nad oedd wedi cytuno ar nodau erbyn y dyddiad hwn

Mae manylion y targedau hyn ar gael gan y Swyddog Ysgolion Uwchradd

#### Targedau Presenoldeb Uwchradd

	2008/09		2009/10		2010/11	
	Nod	Gwirioneddol	Nod	Gwirioneddol	Nod	Gwirioneddol
YSTJ	90.0	90.2	92.0	90.2	92.0	91.7
YUC	90.0	91.1	92.0	90.5	92.0	90.0
YGLL	94.0	91.1	94.0	90.4	94.0	91.7
YDH	92.0	91.2	92.5	91.4	93.0	92.3
YUB	93.0	91.4	93.0	90.3	93.0	91.6
Sir		<b>91.1</b>		<b>90.6</b>	91.0	<b>90.9</b>
Cymru		<b>91.0</b>		<b>91.1</b>		<b>91.4</b>

	2011/12		2012/13		2013/14	
	Nod	Gwirioneddol	Nod	Gwirioneddol	Nod	Gwirioneddol
YSTJ	92.0	<b>91.9</b>	93.0			
YUC	94.0	<b>90.4</b>	92.0		93.0	
YGLL	94.0	<b>92.9</b>	94.23			
YDH	93.5	<b>94.0</b>	94.0			
YUB	93.0	<b>91.3</b>	93.0		93.15	
Sir	92.0	<b>92.2</b>	92.5		93.0	
Cymru		<b>92.2</b>				



## Atodiad 4

### Polisi ar gyfer Cefnogi Presenoldeb Plant y Gofelir Amdanynt

#### Cyflwyniad

1. Mae Cyngor Ynys Môn yn ymroddedig i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Mae'n credu bod presenoldeb rheolaidd, prydlon, di-dor yn yr ysgol yn holl-bwysig i gynorthwyo i sicrhau bod plant y gofelir amdanynt yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.
2. Bwriedir y polisi hwn ar gyfer adnabod swyddogaethau a chyfrifoldebau arbennig ar gyfer ysgolion, gofalwyr a gofal cymdeithasol timau ESLAC.
3. Bwriedir y polisi i ychwanegu at bolisi ac arweiniad arall y Cyngor mewn perthynas â phresenoldeb Ysgol.

#### Cyfrifoldebau Ysgolion

4. Gofynnir i holl ysgolion Ynys Môn benodi athro dynodedig ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Bydd yr athro dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod ymarfer o fewn ei (h)ysgol yn galluogi unrhyw blentyn y gofelir amdano sydd wedi ei gofrestru yn yr ysgol honno i fynychu'r rheolaidd a chyflawni safonau addysgol uchel.
5. Os bydd plentyn y gofelir amdano yn methu â mynychu ysgol ac na dderbynnir unrhyw hysbysiad nac esboniad gan ofalwr y plentyn o fewn awr gyntaf diwrnod ei (d)diffyg presenoldeb dylai'r ysgol ymdrechu i gysylltu â'r gofalwr yn uniongyrchol. (Os na ellir gwneud cyswllt â'r gofalwr dylid hysbysu tîm ESLAC.)
6. Ni ddylai ysgolion awdurdodi unrhyw absenoldeb plentyn y gofelir amdano oni fyddant yn derbyn esboniad boddhaol gan ofalwr y plentyn.
7. Dylai ysgolion fod yn effro i unrhyw batrwm sydd ar ddod o ddiffyg presenoldeb gan blentyn y gofelir amdano a dylent gyfeirio hynny i ofalwr y plentyn a thîm ESLAC yn ddi-oed.
8. Os yw plentyn y gofelir amdano gyda chofrestriad deublyg ac yn derbyn rhan neu'r cyfan o'i (h)addysg oddi ar y safle dylai'r ysgol sicrhau ei fod yn monitro'r presenoldeb hwn yn rheolaidd ac yn ei gofnodi ac yn adrodd amdano'n gywir. Dylai'r ysgol gysylltu â'r sefydliad/darparwr arall lle mae'r plentyn y gofelir amdano yn cael mynediad i'w (h)addysg ar sail wythnosol.

### **Cyfrifoldebau Gofalwyr**

9. Dylai gofalwyr sicrhau bod yr holl blant yn eu gofal yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon a bod plant ond yn colli'r ysgol am resymau na ellir eu hosgoi megis salwch.
10. Dylai gofalwyr ymdrechu i drefnu apwyntiadau ar gyfer plant y gofelir amdanynt y tu allan i oriau ysgol.
11. Dylai gofalwyr fod yn effro i unrhyw arwydd bod plentyn y gofelir amdano yn amharod i fynychu'r ysgol ac i unrhyw ddigwyddiadau ac achlysuron a all effeithio'n ddilynol ar bresenoldeb ysgol rheolaidd plentyn.
12. Pe bai plentyn y gofelir amdano yn methu â mynychu'r ysgol dylai ei (g)ofalwr roi gwybod yn uniongyrchol i'r ysgol ar fore cyntaf unrhyw absenoldeb a chynnig esboniad am bresenoldeb y plentyn (ynghyd â'r dyddiad dychwelyd a ragwelir).
13. Ni ddylai gofalwyr drefnu gwyliau sy'n cynnwys mynd â'r plant y maent yn gofalu amdanynt allan o'r ysgol yn ystod amser tymor.

### **Cyfrifoldebau Gweithwyr Cymdeithasol**

14. Dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau y trefnir, lle bynnag y bo modd, cyfarfodydd gofal-berthynol y tu allan i oriau ysgol.
15. Dylai Gweithwyr Cymdeithasol sicrhau bod gofalwyr yn cyfarfod â'u cyfrifoldebau fel yr amlinellwyd uchod.

### **Cyfrifoldebau Tîm ESLAC**

16. Mae tîm ESLAC, yn monitro'n agos ac yn cofnodi presenoldeb holl blant Ynys Môn y gofelir amdanynt. Os na ddarparwyd rheswm i'r ysgol am absenoldeb, gwneir galwad i'r gofalwr yn gofyn am esboniad o'r absenoldeb.
17. Bydd tîm ESLAC, pan fo'n angenrheidiol, yn cysylltu â'r Swyddog Lles Addysg sy'n gysylltiedig ag ysgol y plentyn.

## Atodiad 5

### Dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Dyfynnir yr hyn a ganlyn o “Arweiniad ar gyfer arolygiad gwasanaethau addysg awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc o Fedi 2010” Estyn. Dysgwyr Atodiad 5 gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Defnyddir y term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ i adnabod disgyblion y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol at rai mwyafrif eu cymheiriaid. Mae'r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol, a ddefnyddir i adnabod y dysgwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu llym, cymhleth a phenodol/neu benodol fel y gosodwyd allan yn Neddf Addysg 1996 a Chôd Ymarfer AAA ar gyfer Cymru.

Mae disgyblion gydag anghenion addysgol ychwanegol yn cynnwys y rhai sydd ag:

- anghenion addysgol arbennig (AAA);
- anabledau;
- anghenion meddygol; ac
- anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ac/neu anghenion iechyd meddwl;

Mae disgyblion yn fwy tebygol o fod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pan ydynt hefyd yn perthyn i grwpiau bregus yn cynnwys:

- grwpiau ethnig lleiafrifol;
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches;
- gweithwyr symudol;
- plant y gofelir amdanynt (LAC);
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog;
- troseddwr ifanc;
- plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd;
- disgyblion mewn perygl o fwlio homoffobig;
- gofalwyr ifanc;
- disgyblion a addysgwyd ar wahân i fod mewn ysgol;
- disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol;
- disgyblion gydag anghenion Sgiliau Sylfaenol; a
- sipsiwn a theithwyr.



## Atodiad 6

### Codau Presenoldeb SIMS

Mae'r codau a argymhellwyd wedi eu grwpio o dan y 5 categori ystadegol a ganlyn:

- yn bresennol;
- gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd (wedi eu trin fel yn bresennol);
- absenoldeb awdurdodedig;
- absenoldeb anawdurdodedig;
- nid yw'n ofynnol mynychu.

<b>Côd</b>	<b>Ystyr</b>	<b>Categori ystadegol</b>
<b>A</b>	Yn bresennol adeg cofrestru	presennol
<b>L</b>	Yn hwyr ond cyrhaeddodd cyn i'r gofrestr gau	presennol
<b>B</b>	Addysir oddi ar y safle (nid cofrestriad dyblyg)	gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>D</b>	Cofrestriad dyblyg (hy yn bresennol mewn ysgol arall neu mewn UGD/PRU)	gweithgaredd ysgol a gymeradwywyd
<b>P</b>	Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd	gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>V</b>	Ymweliad neu daith addysgol	gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>J</b>	Cyfweliad	gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>W</b>	Profiad gwaith (nid hyfforddiant gwaith-seiliedig)	gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>C</b>	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (na chwmpaswyd gan gôd/disgrifiad priodol arall)	absenoldeb awdurdodedig
<b>F</b>	Gwyliau teuluol estynedig a gytunwyd	absenoldeb awdurdodedig
<b>H</b>	Gwyliau teuluol a gytunwyd	absenoldeb awdurdodedig
<b>I</b>	Salwch	absenoldeb awdurdodedig
<b>M</b>	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	absenoldeb awdurdodedig
<b>S</b>	Ymadawriad astudio	absenoldeb awdurdodedig
<b>E</b>	Gwaharddwyd ond ni wnaed darpariaeth amgen	absenoldeb awdurdodedig
<b>R</b>	Rhodddwyd y diwrnod o'r neilltu yn unig ar gyfer defodau crefyddol	absenoldeb awdurdodedig
<b>T</b>	Absenoldeb teithiwr	absenoldeb awdurdodedig
<b>N</b>	Ni ddarparwyd unrhyw reswm am yr absenoldeb hyd yma	absenoldeb anawdurdodedig
<b>O</b>	Anawdurdodedig arall (na chwmpesir gan godau neu ddisgrifiadau eraill)	absenoldeb anawdurdodedig
<b>G</b>	Gwyliau teuluol (heb ei gytuno neu sesiynau y tu draw i gytundeb)	absenoldeb anawdurdodedig
<b>U</b>	Yn hwyr ac wedi cyrraedd ar ôl cau'r gofrestr	absenoldeb anawdurdodedig
<b>X</b>	Sesiynau heb eu hamserlennu ar gyfer disgyblion	nid yw'n ofynnol mynychu

	oed ysgol anorfodol	
<b>Y</b>	Cau rhannol a gorfodol	nid yw'n ofynnol mynychu
<b>Z</b>	Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto	nid yw'n ofynnol mynychu
<b>#</b>	Yr Ysgol ar gau i bob disgybl	nid yw'n ofynnol mynychu

**Department for Lifelong Learning, Isle of Anglesey  
Local Authority**

**POLICY AND PRACTICE  
FOR PROMOTING SCHOOL  
ATTENDANCE**

## CONTENTS

1. Introduction and Statement of Intent
2. Responsibilities of Schools
3. Responsibilities of Governors
4. Responsibilities of Parents
5. Responsibilities of the Local Authority (LA)
6. LA Support - the role of Education Welfare Officers
7. LA support - other services
8. LA policy on Prosecution of Parents
9. Multi-agency networks and partnerships
10. Supporting the attendance of vulnerable pupils or pupils with additional needs

Appendix 1 Key Documents and References

Appendix 2 Attendance/Unauthorised Absence Rates in the Isle of Anglesey and Nationally

Appendix 3 Isle of Anglesey Schools' Attendance Targets

Appendix 4 Policy for Promoting the Attendance of Looked after Children

Appendix 5 List of Learners with Additional Learning Needs

Appendix 6 SIMS Attendance Codes

## **Definitions**

### **Compulsory school age**

